

% o'r holl weithgarwch yn y chwarter hwn sy'n berthnasol i'r sector llaeth



52%

YN WEITHGAREDDAU LLAETH



1,779

FFERM LAETH WEDI COFRESTR GYDA CYSWLLT FFERMIO

Rhwydwaith Arddangos

Gate Farm: Strategaethau tros-hau, gan gynnwys porfeydd aml-rywogaeth

Mae'r safle ffocws organig, Gate Farm, wedi bod yn cynnal rhaglen ail-hadu gyda chymorth Helen Mathieu o Germinal. Cwblhawyd strategaeth ail hadu (gan gynnwys tros-hau) yn ystod haf/hydref 2021. Y ffactor arwyddocaol gyda'r prosiect ar fferm Gate Farm yw bod angen i'r gwaith sefydlu a rheoli gael ei gwblhau heb gymorth gwrtaitheartiffisial nag unrhyw blaladdwyr neu chwynladdwyr. Mae amrywiaeth o rywogaethau a mathau wedi cael eu sefydlu er mwyn monitro eu potensial dan amodau organig. Mae hau rhygwellt lluosflwydd dros ben y cnydau wedi bod yn llwyddiant i ryw raddau, felly hefyd y meillion. Mae'r perlysiâu a gyflwynwyd yn fwy eang, ac yn ymddangos mewn ardaloedd o'r cae gyda gorchudd llai na 70% yn unig. Roedd sefydliad cnydau bresych yn dda am fferm organig – rhagwelir y byddant yn



Ffigur 1. Tros-hau llyriad ac ysgellog ar fferm Gate Farm ar borfa rhygwellt agored.

cynhyrchu oddeutu 3 tunnell/ha. Byddai pob hectar yn bwydo 40 heffer gyflo yn pwyso 400kg am oddeutu naw diwrnod. Mae Helen yn awgrymu y dylid pori'r cae mewn sribedi a rhoi gwellt ar yr adegau cywir, gan ganiatáu oddeutu 4kg o wellt y pen fesul diwrnod. Dylid hefyd rhoi mwynau ychwanegol, naill ai drwy folws neu floc mwynau agored yn y cae.

Nantglas: Cynyddu dwysedd y clamp silwair ac ansawdd y porthiant

Mae cynyddu dwysedd y clamp silwair wedi bod yn ffocws ar fferm Nantglas. Yn ystod diwrnod agored a gynhaliwyd ar y fferm yn ddiweddar, dywedodd yr arbenigwr silwair, Dr Dave Davies, o Silage Solutions, y dylai'r dwysedd targed fod yn 700kg o ddeunydd ffres fesul metr giwbig, sydd gyfwerth ag oddeutu 220kg o ddeunydd sych fesul metr ciwbig, gan ddibynnu ar ddeunydd sych (DM) y silwair. Ar fferm Nantglas, maent wedi sicrhau dwysedd o 800kg, a hyd yn oed ar yr ymylon ac ar frig y clamp (sy'n cael eu hystyried yn adrannau bregus o'r clamp), roedd y dwysedd yn 694kg. Defnyddiwyd peiriant cywasgu i gynyddu dwysedd DM ac i gyflymu'r broses gywasgu. Yn ôl Dr Davies, mae hyn wedi arwain at well dwysedd a sefydlogrwydd aerobig – ac felly at lai o golledion – ond mae astudiaethau hefyd wedi dangos arbedion o 10% o ran tanwydd o'i gymharu â defnyddio tractor yn unig. Defnyddiwyd ychwanegyn homo-eplesol, gan fod data ymchwil wedi dangos ei fod o fudd i berfformiad anifeiliaid, yn wahanol i'r defnydd o gymysgedd o gynnyrch homo/hetero-eplesol. Wrth borthi, mae Dr Davies yn argymhell y dylid mesur dwysedd mewn gwahanol rannau o arwyneb y clamp i brofi am wendidau. Byddai hyn, meddai, fwy na thebyg yn cyfateb â silwair o ansawdd is, a dirywiad cynhesu ac aerobig, o bosib, sy'n lleihau ansawdd a chymeriant. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen talu mwy o sylw wrth storio'r silwair yn y rhannau hynny yn y dyfodol.

Y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth

Erthyglau technegol a gynhyrchwyd gan y Ganolfan Cyfnewid Gwybodaeth;



GWLEDDA FEL BRENHINOEDD – SUT I ATAL ADAR RHAG BWYTA DOGNAU CYMYSG CYFLAWN



DEFNYDDIO SEMEN Â'R RHYW WEDI EI BENNU A THECHNOLEGAU GENYNNOL I WELLA BUCHESI LLAETH A BÎFF



YNHYRCHU LLAETH DAFAD: DEALL CYN EHANGU

EIP Cymru

Gwella ffrwythlondeb a chyfraddau lloia buchesi llaeth yn ne-orllewin Cymru trwy ddull o gael diagnosis cyfebu cynnar gan ddefnyddio protein B sy'n benodol i feichiogrwydd (PSPB)

Cemegyn yw PSPB sy'n cael ei gynhyrchu gan anifail cnoi cil cyfeb, ac mae'n ddull dibynadwy o ragweld beichiogrwydd. Mae pedwar o ffermwyr llaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda chyfanswm o tua 1,700 o anifeiliaid, wedi bod yn gweithio gyda'r Dr Sotirios Karvountzis o Filfeddygol Mendip, Llandeilo, i ymchwilio a ellir defnyddio PSPB fel dull o ddynodi beichiogrwydd yn gynnar mewn buchod llaeth, o fewn 30 a 120 diwrnod o gael tarw. Gall canfod anffrwythlondeb yn gynnar mewn buches laeth arwain at driniaethau amserol a phriodol gan ymgynghori â milfeddyg y fferm.

Ar ddechrau'r prosiect, rhannwyd y buchod yn ddau grŵp ar hap: canfod beichiogrwydd trwy sganio uwchsain a chanfod beichiogrwydd trwy sampl gwaed. Defnyddiwyd gwir ddyddiadau lloia'r anifeiliaid fel y meincnod i gymharu gyda chanlyniadau'r ddau ddull.

Roedd pob dull yn rhoi tri chanlyniad posibl: 'positif' pan oedd beichiogrwydd yn cael ei ganfod, 'negyddol' pan nad oedd yr anifail yn gyfeb, neu ei bod yn rhy gynnar i ganfod y beichiogrwydd, ac yn olaf 'ail-wirio' pan oedd amheuaeth bod yr embryo yn marw neu'n cael ei ail-amsugno.

"Gwelwyd bod PSPB 94% yn gywir ac uwchsain yn gywir 95% wrth ragweld canlyniad positif. Hefyd roedd PSPB 87% yn gywir ac uwchsain yn gywir 86% o ran rhagweld y canlyniad negyddol. Nid oedd y gwahaniaeth rhwng y canlyniadau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol," dywedodd Dr Karvountzis.

O roi costau o'r neilltu, mae manteision ac anfanteision i'r ddau ddull o ganfod beichiogrwydd. Mae sganio uwchsain yn ddull cymharol gyflym o gael canlyniad dibynadwy. Mae hefyd yn gadael i ffermwyr ddynodi beichiogrwydd lluosog (efeiliaid, tripledi ac yn y blaen), cyfnod o feichiogrwydd (bydd offer penodol yn galluogi nodi'r oed o fewn 7-10 diwrnod), a, gan ddibynnu ar y ddelwedd ar gyfnod y beichiogrwydd, pennu rhyw'r ffoetws.

Anfantais y dull hwn yw profiad y gweithredwr, gan fod tystiolaeth bod canlyniad y sganio yn gwella gyda hyfforddiant a gyda blynyddoedd o ymarfer. Mae'n rhaid amharu ar batrwm dyddiol yr anifeiliaid a ddewisir hefyd, gan eu bod yn cael eu cadw mewn corlan cyn neu ar ôl godro, gan aros i gael eu harchwilio.

Wrth ddefnyddio PSPB gall ffermwr sydd wedi ei hyfforddi gasglu'r samplau ar unrhyw amser sy'n gweddu i'w amserlen, ac amserlen y buchod. Gellir ei weithredu fel rhan o'r tasgau rheoli wythnosol, yn debyg i drimio traed, gan leihau'r amharu ar batrwm arferol yr anifail. Ar ôl i'r canlyniadau PSPB gael eu dychwelyd o'r labordy, gall y rhai sy'n negyddol gael eu cyfeirio at y milfeddyg. Gall y milfeddyg wedyn gasglu pam nad ydynt yn cyfebu a rhoi'r triniaethau addas.

Ond mae rhai anfanteision. Daw casglu sampl gwaed dan gylch gorchwyl y Ddeddf Milfeddygon. Felly, mae'n rhaid i'r unigolyn sy'n cynaeafu'r samplau fod wedi ei hyfforddi ar y weithdrefn gan ei filfeddyg ei hun. Yn ail, er bod PSPB yn rhagweld canlyniad beichiogrwydd yn gymharol gywir, ni all gasglu hyd y beichiogrwydd (ac felly mae'n gweithio orau gyda dyddiad penodol o ran rhoi tarw), y gyfradd o efeiliaid na'i ddefnyddio i bennu rhyw.



Ffigur 2. O'r chwith: Dr Sotirios Karvountzis, Rhys Watkins gyda'i frawd Hywel Watkins a'u mam Janet Watkins o Fferm Pantglas, Llanfynydd, Llandeilo.

Gweminarau



Cynhaliwyd

WEMINAR AR
THEMA LLAETH

gyda



O WYLYWR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:

Effeithlonrwydd yn y parlwr godro, cynnal profion llaeth dynamig, ac ansawdd llaeth

Digwyddiadau ar ffermydd



6

DIGWYDD Y
RHWDWAITH
ARDDANGOS

gyda



207

O FNYCHWYR

Datrysiadau storio slyri ar Fferm Graig Olway

Gwrteithio drwy'r dail a godro robotig – golwg ar gynyddu effeithlonrwydd ffermydd llaeth ar Fferm Trawscoed

Sut y gall technoleg deallusrwydd artiffisial helpu i leihau achosion o gloffni ar y fferm yn Erw Fawr

Hau cnwd o dan india corn er budd amgylcheddol ac economaidd ar Fferm Arnolds Hill

Grwpiau Trafod



20

CYFARFOD
TRAFOD
LLAETH

hwedi'u
cynnal
gyda



153

O FNYCHWYR

Astudiaeth Achos

Roedd grŵp llaeth o ogledd Cymru yn awyddus i edrych ar opsiynau posibl, o ystyried costau cynyddol gwrtaithe nitrogen. Roedd mwyafrif aelodau'r grŵp yn rhedeg ffermydd llaeth teuluol traddodiadol yn cadw gwartheg dan do yn y gaeaf, ond sy'n ddibynnol ar wasgaru nitrogen yn gynnar yn y tymor er mwyn gallu troi'r gwartheg allan i'r borfa yn y gwanwyn. Estynnwyd gwahoddiad i Chris Duller ymweld â'r grŵp ar fferm un o'r aelodau yn Nyffryn Conwy.

Dechreuodd Chris gyda throsolwg o'r cyfyngiadau 170kg o N/ha a gyflwynwyd gyda'r ddeddf Rheoli Llygredd Amaethyddol, gan ganolbwyntio ar ei effaith ar ffermydd llaeth. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw cynllunio ymlaen llaw ar gyfer pob un o'r aelodau, o ran niferoedd eu buchod llaeth. Gan y bydd cyfrifiadau'n cael eu gwneud yn seiliedig ar y gorffennol, os yw'r lefel yn uwch na'r 170kg N/ha, yna bydd hi'n rhy hwyr!

Er mwyn dangos hyn, cwblhaodd y ffermwr a oedd yn cynnal y digwyddiad daflen fewnbynnu stoc a grëwyd gan Chris, ac yna'i rhannu gyda'r grŵp. Roedd y daflen yn eu galluogi i edrych ar wahanol senarios – megis lleihau niferoedd buchod llaeth, lleihau niferoedd stoc ifanc, magu heffrod cyfnewid ar gontract allanol – i ddod o hyd i'r sefyllfa berffaith er mwyn cydymffurfio gyda'r rheoliadau.

Mae'r cyfrifiad hwn yn rhoi'r fantais o greu ymwybyddiaeth o'r N sy'n cael ei ryddhau ar ffurf carthion o'r fuches laeth, anifeiliaid cyfnewid a stoc ifanc, ac o fewn slyri a thail buarth ar y fferm. Mae hyn yn rhoi syniad o fewnbwn cyn prynu a gwasgaru gwrtaithe N anorganig.

Aethant ymlaen i drafod prisiau gwrtaithe anorganig.

Bu trafodaethau ynghylch camau gweithredol amgen/gwrthweithiol yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Porfeydd meillion
- Pori cylchdro
- Creu Cynllun Rheoli Maetholion

Y neges allweddol oedd i 'fancio' yn y lle cyntaf (arhebu cyflenwad o N nawr i sicrhau ei fod yn cyrraedd, a gwasgaru am y tro cyntaf a'r eildro yn gynnar). Cafodd aelodau hefyd eu rhybuddio i beidio â cheisio torri comeli ar ddechrau'r flwyddyn, neu y byddai cynnyrch llaeth yn cael ei effeithio pan fydd ar ei bris uchaf fesul c/litr. Fe'u cynghorwyd mai'r haf yw'r amser i domi'n ôl o chwarter, fel nad yw'n effeithio ar berfformiad a phroffidoldeb llaeth.

Cafodd aelodau'r grŵp eu hatgoffa bod Cyswllt Ffermio yn cynnig gwasanaeth samplu tail fel rhan o'u clinigau ar ffermydd; bydd y dadansoddiad a'r adroddiad dilynol yn rhoi syniad i ffermydd o werth maethol y tail buarth a'r slyri ar eu ffermydd.

Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol

63 Digwyddiad wedi'u cynnal, gyda 25 o fynychwyr

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Adrodd stori amaethyddiaeth – sut mae dylanwadwyr o fewn y diwydiant yn cynyddu mewn pwysigrwydd



Gweithdy llygredd amaethyddol



Diogelu eich busnes fferm ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: a yw menter ar y cyd yn opsiwn?



Cymorthfeydd



20 O GYMORTHFEYDD WEDI'U
CYNNAL HELD

Roedd y pynciau allweddol yn cynnwys:

Marchnata ac arallgyfeirio



Cyfreithiol



Cyfrifo ôl troed carbon



Cynllunio



Busnes



Bu busnesau o'r sector llaeth yn mynychu pob un o'r cymorthfeydd yma. Bu rhai busnesau llaeth yn defnyddio'r gymhorthfa i edrych sut i ddefnyddio pecyn adnoddau carbon i fesur ôl troed carbon eu ffermydd.

Y Rhaglen Fentora



139

LLAETH YN CAEL EU
MENTORA AR HYN O BRYD




Cliciwch yma i agor y Cyfeiriadur Mentoriaid.

Hyfforddiant

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd 94 achos o hyfforddiant wyneb i wyneb i'r sector llaeth.

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant yn ôl categori:



Cyfanswm fesul categori:
■ Busnes
■ Tir
■ Da byw

Cwrs	Busnes	Land	Da byw	Cyfanswm
DIY AI			19	19
Trimio Traed Gwartheg			18	18
Rheoli Lloi, Iechyd a Siediau (ar gyfer y sector biff a llaeth)			9	9
ATV gan gynnwys llwythi ac offer sy'n cael ei lusgo (Eistedd arno)		6		6
Dyfrniad Lefel 2 mewn defnyddio plaladdwyr yn ddiogel (PA1) a defnyddio plaladdwyr yn ddiogel gan ddefnyddio offer chwistrellu ar fraich (PA2)		5		5
Cymorth cyntaf brys yn y gweithle	5			5
Cadw llyfrau	53			3
Tryc codi telesgopig ar dir garw		3		3
Sgorio symudedd gwartheg			3	3

E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn:

NEWID YN YR HIN-SAWDD A RHEOLI TIR



NEWID YN YR HINSAWDD A DA BYW



DADIMPIO LLOI



ELFENNAU HYBRIN MEWN GWARTHTEG



Cliciwch yma here i fynd i'r wefan.

